**EITEM AR YR AGENDA: 17**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Mehefin 2009**

**Gweithgareddau Iechyd Corfforaethol**

**Adroddiad gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Ruth Simmons**

### Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth a manylion o weithgareddau iechyd corfforaethol yr Awdurdod.

### Cefndir

2 Yn 2003, dangosodd 'Adolygiad o Ofal Iechyd a Chymdeithasol yng Nghymru' fod y gofyn am wasanaethau iechyd a gofal yn anghynaladwy yn y tymor hir. Mae Her Iechyd Cymru Llywodraeth y Cynulliad wedi cael ei ddatblygu i gynorthwyo i gyfrannu tuag at atal afiechyd yn y lle cyntaf a rhyddhau'r gwasanaeth iechyd i ddelio gydag afiechydon anochel. Felly, roedd 'Lles yng Nghymru' yn pwysleisio fod gan bawb ran i'w chwarae wrth wella iechyd yng Nghymru. Yn fyr, mae iechyd yn fusnes pawb.

3 Iechyd yn y Gwaith: Mae'r Safon Gorfforaethol yn gynllun gwobr ansawdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydnabod arfer da mewn iechyd yn y man gwaith. Mae'r cynllun yn cael ei gefnogi gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, CBI Cymru a TUC Cymru. Mae'r safon yn arf i ddatblygu polisi ac i hyrwyddo iechyd a lles gweithwyr.

4 I ennill gwobr, rhaid i sefydliad arddangos ymrwymiad gweithredol i hyrwyddo iechyd yn y gweithle. Mae gweithgaredd hyrwyddo iechyd yn cael ei fesur ar draws ystod o gyfadrannau craidd sy'n cynnwys

ymrwymiad sefydliadol, cyfathrebu, monitro, adolygu a gwerthuso a’r graddau mae gweithwyr yn cymryd rhan mewn hyrwyddo iechyd yn y gweithle. Rhoir sylw i faterion iechyd penodol megis straen, tybaco, alcohol a chyffuriau, ymarfer corff, maeth, cymorth cyntaf a CPR, risgiau yn y gweithle ac iechyd dynion a merched.

5 Mae sefydliadau llwyddiannus yn derbyn y Safon ar lefel efydd (lefel mynediad), arian neu aur ac yn cadw’r wobr am dair blynedd.

## Gwybodaeth

6 Enillodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'r Wobr Arian ym mis Mawrth 2007 ac, oherwydd ansawdd uchel yr asesiad, ymrwymwyd i ennill y Safon Aur, sicrhawyd ym mis Chwefror 2008. Roedd cryfderau penodol mewn iechyd a diogelwch, hyrwyddo iechyd meddwl, maeth, gweithgareddau corfforol a theithio gwyrdd.

7 Nododd yr aseswyr:
“---mae’r cynnydd enfawr sydd wedi cael ei wneud ac ethos ac athroniaeth y Safon Iechyd Corfforaethol yn ymddangos yn rhan fwy annatod o werthoedd y sefydliad”.

8 Rhoddodd Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru anerchiad agoriadol yn ystod Seremoni Gwobr Aur Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, oedd yn cydnabod fod arweinyddiaeth gorfforaethol gref yn tanategu datblygiad iechyd corfforaethol.

## Cyngor chwaraeon Cymru

9 Yn dilyn derbyn y Wobr Aur, fe sicrhaodd Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru arian gan Gyngor Chwaraeon Cymru i gyflogi Cydlynydd Gweithgareddau Corfforol. Ariannir y swydd am ddwy flynedd hyd fis Mehefin 2010. Mae cynllun gweithredu’r Cydlynydd yn cynnwys holl feini prawf iechyd penodol ac yn cynnwys arolwg staff o iechyd corfforol a chyflwyniad o ddyddiau iechyd a lles. Mae gweithwyr yn gallu cael mynediad i asesiadau iechyd a ffitrwydd ac ymgynghori gydag asiantaethau megis:

Gwasanaethau Rhoi'r Gorau i Ysmygu
Ymwybyddiaeth Cam-drin Alcohol a Sylweddau
Slimming World
Gofal Canser y Fron
Rhoddwyr Gwaed Cenedlaethol

10 Mae cais dilynol am £104,000 ychwanegol gan y Cyngor Chwaraeon wedi ariannu llefydd cadw beics, raciau, 28 beic ac offer seiclo ychwanegol sydd wedi eu lleoli yn Swyddfeydd y Sir ac ym Mhencadlys y Gwasanaeth.

## Aelodaeth o Gyfleusterau Hamdden Corfforaethol

11 Mae disgowntiau ar Aelodaeth o Gyfleusterau Hamdden Corfforaethol wedi cael ei sicrhau i bersonél mewn nifer o gyfleusterau preifat a'r Cyngor ar draws Gogledd Cymru. Hefyd, mae sesiynau gweithgareddau amser cinio ar gael, sy'n cynnwys erobics salsa, tai chi a hyfforddiant cylched.

## Gwobr Platinwm

12 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn paratoi am asesiad yn erbyn y Safon Platinwm. Mae'r Safon Platinwm wedi ei gyfeirio at sefydliadau eithriadol sydd wedi cyflawni'r Wobr Aur ac yn arddangos cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol drwy leihau'r effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol o'r ffordd maen nhw'n gweithredu. Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru angen tystiolaeth o ddatblygiad cynaliadwy mewn:

Trafnidiaeth
Adeiladu cyfalaf
Gwastraff
Ymgysylltu gyda'r Gymuned
Cyflogaeth a sgiliau
Rheoli Cyfleusterau

13 Rhaid cyflwyno astudiaeth achos i arddangos enghraifft ysbrydoledig ac arloesol o gyflawni effaith cadarnhaol ar iechyd a lles y gymdeithas ehangach.

14 Bydd astudiaeth achos Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn canolbwyntio ar ymgysylltu gyda'r gymuned ac yn cynnwys Rhyl 1af, gorsaf dân gymunedol gyntaf Gogledd Cymru.

**Argymhelliad**

15 Fod aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.